

POLISI RHEOLI ARGYFWNG A CHYNLLUN YMATEB I ARGYFWNG MAWR

Adol	Dyddiad	Pwrpas Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid	Dyddiad
1.	Mehfin 2015	Cyhoeddiad Cyntaf	30 Mehefin 2015
2.	Gorffennaf 2019	Adolygiad ac ail-gymeradwyo	

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog Cyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Cydymffurfio	Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	Grŵp Rheoli Argyfwng a Pharhad Busnes	9fed Gorffennaf, 2019

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen 3 mlynedd

1. RHAGARWEINIAD

[a] Nodau ac Amcanion

Nodau ac amcanion y Polisi Rheoli Argyfwng a'r Cynllun Ymateb i Argyfwng Mawr

- Rhoi polisi fframwaith cyffredinol i'r brifysgol i'r diben o hwyluso cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a defnyddio adnoddau'n briodol wrth ymateb i argyfwng mawr a chymau dod dros hynny;
- Lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau'r argyfwng, gan felly lleihau eu heffaith ar bobl;
- Sefydlu trefniadau a gweithdrefnau priodol er mwyn ymateb i argyfwng a'i reoli;
- Galluogi Prifysgol Bangor i gydgyssylltu'n effeithiol, yn ôl y gofyn, gyda'r Gwasanaethau Brys, Asiantaethau Gwirfoddol a grwpiau neu sefydliadau arall pan yn ymateb i argyfwng;
- Galluogi'r Brifysgol i barhau i ddarparu gwasanaethau arferol cyn belled ag y bo modd;
- Sefydlu prosesau ar gyfer adolygiad systematig a pharhaus a fydd yn caniatáu i wersi gael eu dysgu a threfniadau gael eu diweddarau a'u hadolygu pan fo amgylchiadau'n newid.

Mae'r Polisi a'r Cynllun Ymateb hwn yn rhoi fframwaith i egluro sut bydd y Brifysgol yn delio ag argyfyngau mawr a all effeithio ar y staff, myfyrwyr a/neu'r ystâd. Mae'n berthnasol i bob aelod staff a gall fod yn berthnasol i fyfyrwyr os bydd angen eu gwasanaethau i helpu gydag unrhyw ddigwyddiad sy'n mynd ymlaen.

[b] Diffiniad o Argyfwng Mawr

Argyfwng mawr yw unrhyw ddigwyddiad, posibl neu wirioneddol, sy'n tarfu'n ddifrifol ar weithrediad y brifysgol yn gyffredinol ac sydd, oherwydd ei faint a'i effaith, y tu hwnt i brosesau arferol y brifysgol fedru delio ag ef. Rhagwelir y bydd y digwyddiad ar y fath raddfa fel y bydd angen adnoddau cyfunol rhai o'r gwasanaethau brys, neu bob un ohonynt, i ddelio ag ef.

Mae'r rhestr isod yn nodi digwyddiadau posibl a fyddai'n arwain at weithredu'r Cynllun Ymateb i Argyfwng Mawr:

- Tân, ffrwydrad ac/neu ollyngiad nwy o bwys;
- Digwyddiad biolegol neu ollyngiad ymbelydredd;
- Difrodi bwriadol, cynnau tân bwriadol neu weithred o drais difrifol;
- Terfysg neu weithgaredd terfysgol;
- Digwyddiad yn ymwneud â sylweddau peryglus neu wenwynig;
- Damweiniau'n ymwneud â chlodiant;
- Llifogydd, gwyntoedd cryfion iawn;
- Afiechyd heintus yn torri allan;
- Peryglon allanol, megis cemegau'n colli neu ffrwydrad heb fod ar eiddo'r brifysgol.

Yn is na lefel "argyfwng mawr" bydd digwyddiadau argyfwng cyffredinol, neu ddigwyddiadau o natur leol nad ydynt yn tarfu'n sylweddol ar weithgareddau craidd y brifysgol. Ymdrinnir â'r rhain fel rheol gan drefniadau gweithredu sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y brifysgol o fewn yr adrannau gwasanaeth canolog perthnasol, gyda pheth cymorth allanol os ystyrir bod angen hynny.

Os digwydd argyfwng mawr bydd y Tîm Gweithredu Ymateb i Argyfwng yn rheoli'r digwyddiad fel y nodir yn Adran 2 isod.

2. YMATEB I ARGYFWNG MAWR

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu system ar dair lefel ar gyfer argyfyngau mawr. Mae'r system hon yn cael blaenoriaeth dros drefniadau rheolaethol arferol a gall olygu y bydd aelodau staff yn cael cyfarwyddiadau gan unigolyn nad yw'n rheolwr llinell dydd i ddydd iddynt:

[i] Tîm Gweithredu Ymateb i Argyfwng

Mae'r Tîm Gweithredu Ymateb i Argyfwng (TGYA) yn gyfrifol am gydlynu strategol cyffredinol yn ystod unrhyw ddigwyddiad a chaiff ei gynnull gan y Cydlynnydd TGYA i ddelio ag argyfyngau mawr pan fo'r angen, ac yn dilyn trafodaeth â Chadeirydd y TGYA.

Pan fydd y TGYA wedi ymgynnull bydd ganddo reolaeth gyffredinol dros adnoddau'r Brifysgol a bydd yn gwneud penderfyniadau strategol ar ran y Brifysgol i hwyluso'r gwaith o ddelio ag unrhyw sefyllfa o argyfwng. Mae'n debyg na fydd y TGYA wedi ei leoli ar safle'r digwyddiad ond bydd mewn ystafell lle bydd yn llunio strategaeth ar gyfer delio â'r digwyddiad. Bydd y TGYA yn cael gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau yn ystod unrhyw ddigwyddiad gan Gydlynnydd y TGYA.

Pan fo angen cysylltu â'r gwasanaethau brys mewn argyfwng mawr, mae'r TGYA yn gweithredu ar Lefel Aur.

Awgrymir y bydd y TGYA fel rheol yn cynnwys yr aelodau craidd a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol neu enwebai (Cadeirydd TGYA)
- Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus (i arwain ar gyfathrebu fel y nodir yn y Cynllun Cyfathrebu mewn Argyfwng Mawr)
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (i arwain ar faterion staffio)
- Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr) (i arwain ar faterion myfyrwyr) NEU
- Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) (i arwain ar faterion myfyrwyr)
- Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (Cydlynnydd TGYA)
- Swyddog Llywodraethu a Mewnfudo (Swyddog Cefnogi Ymateb i Argyfwng – cofnodwr)

Gofynnir i aelodau staff perthnasol eraill ar lefel Pwyllgor Gweithredu i ymuno fel bo'r angen, yn unol â natur yr argyfwng mawr.

[ii] Ymateb Tactegol i Argyfwng

Yn dibynnu ar natur y digwyddiad gall yr ymateb tactegol i argyfwng gynnwys aelod staff wedi'i hyfforddi'n addas a fydd yn gweithredu fel Arweinydd Tactegol ¹a fydd yn cyfarwyddo nifer o dimau ymateb i argyfwng, neu Dîm Ymateb Tactegol i Argyfwng (TYTA), a fydd yn cyfarwyddo timau ymateb gweithredol o "funud i funud". Bydd yr Arweinydd Tactegol neu TYTA yn pennu tasgau ac adnoddau, pennu blaenoriaethau, cynllunio a chydlynu pryd fydd y tasgau'n cael eu gweithredu, cysylltu â'r Cydlynnydd TGYA (lle bo'n ofynnol) i gael adnoddau eraill fel bo'r angen a rheoli'r broses adfer.

Bydd rheolwyr a staff gweinyddol eraill yn cefnogi'r Arweinydd Tactegol neu'r TYTA fel bo'r angen yn y digwyddiad. Bydd y swyddog neu'r tîm arwain wedi eu lleoli mewn man addas a benderfynir gan leoliad y digwyddiad.

1 Mae rhestr o Arweinwyr Tactegol ar gael yn Atodiad 2

Disgwylir y bydd yr Arweinydd Tactegol i unrhyw argyfwng fel rheol yn uwch reolwr o fewn y gwasanaeth neu'r adran y mae'r argyfwng mawr yn effeithio fwyaf arno/arni. Bydd cydlynu rhwng yr Arweinydd Tactegol / TYTA a'r TGYA yn digwydd drwy'r Cydlynnydd TGYA, a all ddewis cadeirio'r TYTA, neu gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gan yr Arweinydd Tactegol.

Pan fo angen cysylltu â'r gwasanaethau brys mewn argyfwng mawr, mae'r Arweinydd Tactegol/TYTA yn gweithredu ar Lefel Arian.

[iii] Ymateb Gweithredol i Argyfwng

Yn dibynnu ar natur y digwyddiad gall yr ymateb gweithredol i argyfwng gynnwys un adran neu is-adran o'r brifysgol, neu nifer o adrannau neu is-adrannau, a fydd yn gyfrifol am reoli digwyddiad mawr, yn cynnwys ymateb i ddigwyddiad a rheoli'r man lle digwyddodd. Bydd cynlluniau wrth gefn corfforaethol y Brifysgol yn nodi aelodaeth graidd rhai timau gweithredol, ond bydd yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad.

Dylai unrhyw benderfyniadau ar lefel Dactegol neu Weithredol gael eu cofnodi'n syth gan gofnodwr a bennir o fewn yr adran neu'r gwasanaeth arweiniol a dylai cofnod o'r penderfyniadau hyn fod ar gael i gyfarfod nesaf y timau hynny (lle bo'n berthnasol) ac /neu i'r Cydlynnydd TGYA os gofynnir am hynny. Rhagwelir y bydd timau ymateb Tactegol a Gweithredol yn cyfarfod am gyfnodau byr ar adegau rheolaidd yn ystod argyfwng mawr.

[iv] Crynodeb o System Dair Lefel

	Gweithredol	Tactegol	Pwyllgor Gweithredu
Lleoliad y tîm	Lleoliad y digwyddiad	Lleoliad i'w bennu gan y digwyddiad	Prif Adeilad y Celfyddydau (neu leoliad addas arall a bennir gan y digwyddiad)
Rheolaeth y Tîm/Timau	Arweinir pob grŵp gweithredu gan aelod staff wedi'i hyfforddi'n addas (yn dibynnu ar wybodaeth arbenigol sydd ei hangen i ddelio â'r digwyddiad) Mae angen i'r arweinydd sydd yn y lleoliad gael ei adnabod yn glir gan ddefnyddio tabard Prifysgol	Uwch reolwr o fewn y gwasanaeth neu'r adran y mae'r argyfwng yn effeithio fwyaf arno/arni Bydd yr ymateb cyffredinol ar y lefel yma'n cael ei reoli gan y Cydlynnydd TGYA	Rheolaeth dros y digwyddiad: Cadeirydd y Tîm Gweithredu Ymateb i Argyfwng, neu enwebai
Aelodaeth (dibynnu ar natur yr argyfwng)	Aelodau staff gweithredol perthnasol a bennir gan natur y digwyddiad mawr Cofnodwr	Naill ai un uwch reolwr o fewn y gwasanaeth neu'r adran y mae'r argyfwng yn effeithio fwyaf arno/arni Neu Grŵp bach o uwch swyddogion ar lefel Dactegol	Aelodau staff ar lefel Pwyllgor Gweithredu fel bo'r angen, yn unol â natur yr argyfwng ac/neu ar gais Cadeirydd yr TGYA Cydlynnydd TGYA

		<p>gyda chyfrifoldeb rheolaeth llinell perthnasol dros dimau gweithredol ymateb i argyfwng</p> <p>Cydlynnydd TGYA</p> <p>Swyddog Cefnogi Ymateb i Argyfwng</p>	Swyddog Cefnogi Ymateb i Argyfwng
Swyddogaeth	<ul style="list-style-type: none"> Rheoli'r digwyddiad i ddechrau, casglu gwybodaeth a'i chadarnhau, asesu pobl, eiddo a goblygiadau Asesu'r angen i gael Ymateb Tactegol i Argyfwng Galw'r gwasanaethau brys os oes angen. <p>Codi i lefel Dactegol os/pan fo angen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Asesu goblygiadau o ran pobl, eiddo a pharhad busnes, Sicrhau bod staff lefel Weithredol yn sicrhau bod y safle'n ddiogel a chyfarwyddo'r gwasanaethau brys, ystyried enw da, costau, amser tarfu, adfer, cydymffurfio a goblygiadau o ran yswiriant, asesu p'un a fydd staff neu fyfyrwyr yn debygol o fod angen swyddfeydd neu lety arall. Asesu pa gyfathrebiadau sydd eu hangen, Asesu a rhoi gwybod yn barhaus am oblygiadau posibl y digwyddiad Briffio'r Cydlynnydd TGYA 	<ul style="list-style-type: none"> Asesu gallu tîm lleol i ddelio â'r digwyddiad, Hysbysu'r Is-ganghellor Hysbysu Cadeirydd y Cyngor os bydd angen, Ystyried enw da, costau, amser tarfu, adfer, cydymffurfio, goblygiadau cyfreithiol ac yswiriant. Nodi a hyrwyddo cyfleoedd neu fanteision yn deillio o'r digwyddiad, Trefnu i gysylltiadau allanol gael eu gwneud pryd a phan fo'r angen, Cymeradwyo holl ddatganiadau i'r wasg, Cymeradwyo ceisiadau am lety dros dro gan lefelau Tactegol neu Weithredol Cymeradwyo ceisiadau gan lefelau Tactegol neu Weithredol am gyllid argyfwng
Cysylltu â'r gwasanaethau brys	Lefel Efydd	Lefel Arian	Lefel Aur

[v] Gwytnwch yn ystod Argyfwng Mawr

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall gweithio mewn argyfwng mawr fod yn flinedig. Felly, mae'n hanfodol yn ystod unrhyw ddigwyddiad sy'n para mwy na thua 6-8 awr bod y Timau Gweithredol, Tactegol a Phwyllgor Gweithredu Ymateb i Argyfwng neu Swyddogion Arweiniol yn pennu unigolion i gymryd drosodd eu gwaith yn rheoli'r digwyddiad. Dylai cynllunio i drosglwyddo drosodd o un tîm i'r llall fod yn drefnus er mwyn sicrhau

bod y timau sy'n dod i mewn yn gwybod am yr holl faterion sydd heb eu datrys. Dylai Swyddogion Arweiniol ac/neu Gadeiryddion Tîm Ymateb i Argyfwng sicrhau bod trosglwyddiadau'n digwydd ar adegau rhesymol yn ystod y dydd ac nad yw'r amserau trosglwyddo ar gyfer y tair lefel yn digwydd yr un pryd er mwyn sicrhau dilyniant. Dylai Cadeirydd y TGYA sicrhau gwytnwch cyffredinol ar bob lefel.

[vi] Hysbysiad i Ddarfod Dyletswydd

Unwaith y bydd y digwyddiad argyfwng mawr wedi dod i ben a chynllun parhad busnes wedi ei weithredu (lle bo'r angen), dylai Cadeirydd y TGYA roi hysbysiad ffurfiol i holl aelodau staff sy'n ymwneud â'r digwyddiad i roi'r gorau iddi a dychwelyd at eu dyletswyddau arferol.

[vii]. Trefniadau adrodd yn ôl

Dylid cynnal cyfarfod ffurfiol i adrodd yn ôl cyn gynted â phosibl ar ôl i'r digwyddiad argyfwng ddod i ben. Dylai hwn gael ei drefnu gan y Cydlynnydd TGYA a dylai fod yn drafodaeth wedi'i hwyluso lle na roddir bai ar neb. Dylai'r canlyniad gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch a'i ddefnyddio i wella polisiau'r brifysgol a'i hymatebion i argyfwng mawr yn y dyfodol.

Dylai'r drafodaeth adrodd yn ôl gael ei chadeirio gan y Cydlynnydd TGYA, a bydd yr Uwch Swyddog Materion Myfyrwyr (yn ei rôl fel Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Rheoli Argyfwng) yn darparu nodiadau o'r cyfarfod adrodd yn ôl, ynghyd â chynllun gweithredu (lle bo'n berthnasol), i'w cyflwyno i'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch.

3. TREFN WEITHREDU PE BAI SEFYLLFA'N GWAETHYGU

a. Proses Ddwysáu

Bydd y broses o ddwysau i statws argyfwng mawr yn y brifysgol yn cael ei llywio gan natur yr argyfwng, fel yr amlinellwyd yn Adran 1(b) uchod. Gall yr argyfwng gael ei alw'n argyfwng mawr yn syth, neu gall argyfwng cyffredinol ddatblygu gydag amser yn argyfwng mawr.

Fel rheol, yn achos argyfwng cyffredinol bydd tîm diogelwch y brifysgol eisoes yn ymwybodol o'r digwyddiad a hwy fydd yn y sefyllfa orau i gynghori a yw digwyddiad wedi gwaethygu i'r graddau y gellir ei ystyried yn Argyfwng Mawr yn unol â meini prawf hynny.

Yn yr achos hwn, unwaith y bydd aelod staff sy'n delio â digwyddiad argyfwng cyffredinol wedi gweld ei hun neu gael ei hysbysu gan staff diogelwch bod y digwyddiad erbyn hyn yn cyflawni meini prawf argyfwng mawr, mae'n rhaid cysylltu â Chydlynnydd Tîm Ymateb Argyfwng y Pwyllgor Gweithredu.

Mae'n rhaid cynnwys Cadeirydd Tîm Ymateb Argyfwng y Pwyllgor Gweithredu os yw digwyddiad yn achosi un neu fwy o'r canlynol:

- Ni ellir cael mynediad i ran fawr o'r safle am fwy nag ychydig oriau,
- Mae yna fygythiad credadwy i iechyd ac / neu ddiogelwch staff, myfyrwyr ac/neu ymwelwyr,
- Mae anaf difrifol, salwch neu farwolaeth wedi digwydd,
- Risg o niwed sylweddol i enw da'r brifysgol,
- Yr heddlu'n ymwneud yn helaeth â'r digwyddiad
- Y wasg genedlaethol yn rhoi sylw i'r digwyddiad
- Angen adnoddau ychwanegol a chymeradwyo eu darparu

Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y Cydlynnydd TGYA, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y TGYA, yn cynnull y TGYA fel y nodwyd yn Adran 2 uchod.

b. Rhifau Cyswllt mewn Argyfwng

Fel rhan o'i threfn rheoli argyfwng mawr mae'r Brifysgol wedi llunio cyfeiriadur cyswllt mewn argyfwng a fydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio'n rheolaidd gan y Cydlynnydd TGYA. Mae'r Deon Coleg / Pennaeth Ysgol / Cyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol yn gyfrifol am roi manylion i'r Cydlynnydd TGYA am uwch staff sydd i'w galw pe bai argyfwng mawr. Caiff y manylion hyn eu diweddarau'n flynyddol fan leiaf.

Bydd y cyfeiriadur yn cynnwys fan leiaf rifau cyswllt tu allan i oriau swyddfa ar gyfer y canlynol:

Cyfeiriadur Rhifau Cyswllt mewn Argyfwng y Pwyllgor Gweithredu

- Aelodau'r Pwyllgor Gweithredu

Prif Gyfeiriadur Rhifau Cyswllt mewn Argyfwng y Brifysgol

- Staff gweinyddol uwch perthnasol (Gradd 9 ac uwch)
- Staff gweinyddol allweddol eraill
- Penaethiaid Colegau, Ysgolion ac Adrannau Canolog
- Personau cyswllt allweddol yn y Colegau, Ysgolion ac Adrannau Canolog

Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, ar ran y Pwyllgor Gweithredu, yn penderfynu pwy sy'n cael mynediad awdurdodedig at Brif Gyfeiriadur Rhifau Cyswllt mewn Argyfwng y Brifysgol. Bydd mynediad at Gyfeiriadur Rhifau Cyswllt mewn Argyfwng y Pwyllgor Gweithredu yn cael ei gyfyngu i aelodau'r TGYA, y Cydlynnydd TGYA a'r Swyddog Cefnogi Ymateb i Argyfwng yn unig. Cedwir copi electronig o Brif Gyfeiriadur Rhifau Cyswllt mewn Argyfwng y Brifysgol yn ddiogel gan yr Adran Ddiogelwch, yn ogystal â chan y Cydlynnydd TGYA Swyddog Cefnogi Ymateb i Argyfwng.

c. **Argyfyngau Mawr Dramor**

Os bydd argyfwng mawr yn ymwneud a staff y brifysgol sydd dramor ar fusnes y brifysgol neu'n astudio, dylid rhoi gwybod yn syth i'r Cydlynnydd TGYA (neu i dîm diogelwch y brifysgol os nad yw ar gael) a dylid delio â'r mater yn unol â'r Cynllun Delio ag Argyfwng Mawr Dramor. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr argyfwng, bydd y Cydlynnydd TGYA yn rhoi gwybod i Gadeirydd y TGYA.

4. **CYFRIFOLDEBAU**

a. **Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch**

Cyfrifoldeb y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yw sicrhau, ar ran y Pwyllgor Gweithredu, bod gan y brifysgol system effeithiol i reoli argyfyngau, yn unol â'r adnoddau a bennwyd ar gyfer hynny. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cymeradwyo, hyrwyddo a monitro polisiâu, dulliau gweithredu, cynlluniau a gweithredoedd a luniwyd i sicrhau bod gan y brifysgol fframwaith cadarn i reoli argyfyngau.
- Cymeradwyo, hyrwyddo a monitro cynlluniau colegau ac adrannau canolog i fedru parhau â'u busnes.
- Sicrhau bod hyfforddiant perthnasol ar reoli argyfwng yn cael ei roi'n rheolaidd i staff, ar holl lefelau'r cynllun ymateb i argyfwng mawr.
- Derbyn adroddiadau ar holl ymatebion Tactegol a Gweithredol i argyfyngau yn y brifysgol; a derbyn nodiadau a chynlluniau gweithredu yn deillio o gyfarfodydd adrodd yn ôl.
- Sicrhau bod ymarferion rheoli argyfwng ac ymarferion bwrdd gwaith yn cael eu cynnal o leiaf yn flynyddol yn y brifysgol; a sicrhau bod ymarferion ar ddelio ag argyfwng mawr yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau brys.

b. **Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio**

Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yw Cadeirydd Tîm Ymateb Argyfwng y Pwyllgor Gweithredu (TGYA), ac mae ganddo/ganddi oruchwyliaeth weithredol dros reoli argyfwng. Gall y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddewis dirprwyo cyfrifoldeb dros gadeirio'r TGYA i aelod staff arall ar lefel y Pwyllgor Gweithredu, yn dibynnu ar natur yr argyfwng mawr.

Mae gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio gyfrifoldeb dirprwyedig o ddydd i ddydd dros reoli argyfwng ac ef yw Cydlynnydd TGYA y brifysgol. Mae'r Swyddog Llywodraethu a Mewnfudo wedi ei bennu i weithredu fel Swyddog Cefnogi Ymateb i Argyfwng, a gellir cysylltu ac ef / hi yn absenoldeb y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.

Mae'r cyfrifoldeb yn cynnwys:

- Cydlynu argyfyngau mawr;
- Sefydlu'r TGYA i reoli argyfwng mawr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y TGYA.
- Cynllunio a chydlynu ymarferion yn ymwneud ag argyfwng mawr, yn ymarferion mewnol yn y brifysgol, a hefyd ymarferion lle mae'r brifysgol yn cymryd rhan fel partner ar y cyd ag asiantaethau allanol.
- Dynodi adran ganolog fel yr adran arweiniol ar gyfer datblygu cynlluniau wrth gefn corfforaethol penodol.
- Cynghori Colegau ac Adrannau Canolog ynglŷn â datblygu, effeithiolrwydd ac adolygu eu cynlluniau parhad busnes ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig perthnasol.

c. Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus

Mae'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus yn gyfrifol am lunio, gweithredu ac adolygu *Cynllun Cyfathrebu mewn Digwyddiad o Bwys*. Caiff y Cynllun ei gymeradwyo gan y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch a chaiff ei adolygu bob tair blynedd.

d. Deoniaid Coleg, Penaethiaid Ysgol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol

Mae Deoniaid Coleg, Penaethiaid Ysgol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol yn gyfrifol am wneud asesiadau risg ar senarios argyfwng posibl. Maent hefyd yn gyfrifol am lunio, cymeradwyo ac adolygu eu trefniadau parhad busnes, gan gynnwys sefydlu cynllun parhad busnes ar gyfer y maes y maent yn gyfrifol amdano.

Mae'r *Polisi Rheoli Argyfwng a Chynllun Ymateb i Argyfwng Mawr* hyn yn amlinellu'r drefn i'w dilyn pe bai argyfwng mawr yn y brifysgol. Mae'r Deon Coleg, Pennaeth Ysgol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol yn gyfrifol am roi manylion i Gydlynnydd TGYA y brifysgol am staff uwch sydd i'w galw pe bai argyfwng mawr yn ymwneud â'r maes y maent hwy'n gyfrifol amdano.

5. PARHAD BUSNES

Bydd y Cydlynnydd TGYA yn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn corfforaethol wedi eu llunio a'u cymeradwyo gan y Grŵp Rheoli Argyfwng a Pharhad Busnes gan roi sylw i feysydd pwysig o ran risg mewn argyfwng. Bydd pob cynllun wrth gefn yn dynodi adran arweiniol ac uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol a swyddog gweithredu. Bydd y cynlluniau wrth gefn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Fel y nodwyd yn Adran 4[d] uchod, mae'n rhaid i Golegau, Ysgolion a Gwasanaethau Proffesiynol hefyd sicrhau bod ganddynt Gynllun Parhad Busnes (CPB) sy'n nodi sefyllfaoedd argyfwng posibl sy'n benodol i'w maes. Dylid diweddarau'r rhain yn rheolaidd. Dylai'r CPB ystyried pa gamau y gellir eu cymryd ymlaen llaw i leihau effaith digwyddiadau penodol ar Goleg neu Adran Wasanaeth Ganolog, a dylid amlinellu'r camau fydd eu hangen i ddod dros ddigwyddiadau o'r fath. Bydd y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yn derbyn sicrwydd yn flynyddol fod CPB Colegau/Adrannau Gwasanaeth Canolog wedi eu diweddarau.

6. HYFFORDDIANT

Bydd y Cydlynnydd TGYA yn sicrhau bod staff yn gwybod am y *Polisi Rheoli Argyfwng a'r Cynllun Ymateb Mawr* a rhoddir hyfforddiant rheolaidd, wedi ei reoli a'i gyflwyno gan yr Uwch Swyddog Materion Myfyrwyr (yn ei rôl fel Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Rheoli Argyfwng) i staff allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am eu swyddogaethau rheoli argyfwng fel y gallent gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Cynhelir ymarferion digwyddiadau mawr bob blwyddyn fel rheol. Cynhelir ymarferion gyda nifer o asiantaethau o bryd i'w gilydd, mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau brys.

Cymeradwywyd Fersiwn 2 gan y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch, 9fed Gorffennaf 2019

Rhestr o Brif Swyddogion Tactegol

Cynlluniau wrth gefn	Swyddog Tactegol Arweiniol (a dirprwy enwebedig)
Trefn Ymdrin â Marwolaeth Myfyriwr neu Ddigwyddiad Argyfyngus yn cynnwys Myfyriwr	Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr (Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr)
Trefn Ymdrin â Marwolaeth Aelod Staff neu Ddigwyddiad Critigol sy'n Cynnwys Aelod Staff	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Gweithrediadau))
Trefn Ymdrin â Thywydd Anffafriol	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (Swyddog Llywodraethu a Mewnfudo)
Trefn Ymdrin ag Argyfwng Mawr Dramor	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Gweithrediadau)) - Staff Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (Swyddog Llywodraethu a Mewnfudo) - Myfyriwr
Trefn Sefydlu Llinell Gymorth y Brifysgol	Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr (Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr)
Trefn Argyfwng: Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio	Cyfarwyddwr Artistig (Pontio) (Rheolwr Gweithrediadau Pontio)